

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Myra Hughes (Saron) sydd wedi colli brawd yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn hi, fel gweddill ei theulu, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y cânt adnabod noddod a nerth Duw yn eu hangen.
- Aeth Robert Davies (Llansannan) ac Alun Pierce (Llanefydd) i Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos diwethaf, a pharhau yno hefyd y mae Elfed Davies (Saron) a Gwenfyl Williams (Llanefydd). Mae Thomas Evans (Llanfair) yn parhau hefyd yn Ysbyty Llanelwy a William Jones (Llanefydd) yn yr Inffirmari, ond mae'n argoeli'n dda y caiff y ddau ddychwelyd adre ar hyn. Yn achos pob un ohonynt, gweddiwn y cânt brofi agosrwydd Duw y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau calonnog i Aled a Tanya Owen (Llansannan) ar enedigaeth Elin Mair. Dymunwn orau'r nef iddynt fel teulu.

Ceisiadau Gweddi

Yng Nghyfarfod Gweddi'r Fro a gynhelir bob pythefnos yn y Groes, byddwn yn cofio ac yn gweddio dros yr eglwys, dros faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang, a thros bobl mewn amgylchiadau amrywiol. Os oes gennych chi destun gweddi, a wnewch chi adael i Celfyn Williams (Groes) - 550274, neu Hafwen Roberts (Henllan) - 813445 wybod, os gwelwch yn dda?

Galw Gweinidog

Yn unol â rheolau'r Cyfundeb ac yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos gyda blaenoriaid y Fro, y cam nesaf er mwyn sefydlu Pwyllgor Bugeiliol yw trefnu pleidlais ddirgel yn yr holl eglwysi ac ethol rhai o blith yr aelodau i gydweithio gyda'r blaenoriaid ar y Pwyllgor Bugeiliol. Bwriedir gwneud hynny naill ai ar y Sul olaf ym mis Mawrth, neu'r Sul cyntaf ym mis Ebrill. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled.

I ddod

- Cyfarfod o **Bwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Iau, Ebrill 14eg am 7.30.
- **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan: www.llanw.org

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102 erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Mawrth 2011

Oes ganddoch chi
destun gweddi?
Sylwch ar y dudalen gefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd newydd hwn o ras! Dydi drws gras ddim wedi ei gau ac mae cyfle o'r newydd wedi ei roi i ni heddiw gan Dduw i ymateb i'w Air ac i roi ein hunain o'r newydd i'w addoli. Gweddiwn y bydd pob un ohonom yn cael ein dwyn yn nes at Iesu heddiw i ryfeddu eto at ei ogoniant a syrthio wrth ei draed.

Diolch yn fawr i chi am y croeso adre ac am eich llongyfarchiadau i ni fel teulu. Mae Elin Mair wedi cymryd ei lle yn barod ac yn prifio pob dydd! Mae i fywyd newydd ei gynnwrf ac mae'r rhai ohonoch sydd ynghanol y tymor wyna yn gwybod yn well na neb, dwi'n siwr, sut beth ydi o i ryfeddu at wyrth yr enedigaeth a'r bywyd newydd sydd yn dod o hyd i'r byd. Diolch am gael gweld gwanwyn newydd arall a chael prawf arall o ffyddlondeb Duw trwy ei greadigaeth wyrthiol.

Bûm oriau mewn awyren ar y ffordd adre a thrwy ffenestr awyren mae dyn yn cael golwg wahanol iawn ar y byd. Synnais cymaint o eira a moroedd sydd yna yn y byd! Ac wrth gwrs mae'r cymylau yn fendigedig yn eu hamrywiaeth. Maent yn ymddangos fel moroedd yn yr awyr wrth edrych i lawr arnynt! Un o'r golygfeydd rhyfeddaf a welais ar y ffordd adref oedd yr haul yn machlud i'r môr o gymylau yn hytrach nag i'r môr go iawn. Golwg newydd ar hen olygfa gan fy mod mewn lle gwahanol.

Tybed o ble 'dan ni'n edrych ar Iesu a rhyfeddod ei Berson a'i waith? Mae'n gallu ymddangos yn bell a digynnwrf weithiau am ein bod wedi arfer a chlywed amdano ac heb gael ein cyffroi go iawn yn ein hysbryd. Rhyw basio heibio fel edrych ar fachlud arall i ddiwrnod arall heb fawr o gynnwrf.

Ond, pan syllwn ar Iesu o ganol ein hangen, mae'r olwg arno yn newid yn llwyr! Pan edrychwn arno fel rhai sy'n gorfod cael iachâd a maddeuant neu atebion i fygythiadau angau, mae ei Ogoniant yn disgleirio ganwaith yn fwy ac ni fedrwn ond dweud:

“Y mae gwedd dy wyneb grasol
yn rhagori llawer iawn
ar bob peth a welodd llygad
ar hyd wyneb daear lawn:
Rhosyn Saron,
ti yw tegwch nef y nef.”

Ceisiwn newid ein safle heddiw i weld Iesu o le gwahanol – o ganol ein hangen a'n tlodi a thrwy ei Ysbryd, gweddiwn am gael ei weld yn llawnder ei nerth a'i Arglwyddiaeth. Wrth wneud hyn y daw Duw i'n creu o'r newydd a rhoi bywyd newydd ynom.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Dosbarth Derbyn** yn Festri Capel Groes o 11.30-12.30.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00.
- Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30 yng nghwmni Simon Humphreys, Prif Uwch-
arolygydd Heddlu Gogledd Cymru. Mynediad: £3 yn cynnwys bwffe. Mwy o fanylion gan Sarah (870601).
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Noson Cardiau a Chreffft** yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30. Cewch hefyd gyfle i glywed sut mae Duw yn gweithio ym mywyd Elinor.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Llansannan am 4.30 a 6.00.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghanolfan Bryn y Groes, Y Bala.
- Sul nesaf • **Dosbarth Derbyn** yn Festri Capel Groes o 11.30-12.30.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa yn Hyfrydle, Llanfair am 3.15. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd y Parch Wayne Hughes yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau • Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf • Bydd y Parch Wayne Hughes yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd y Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel **am 2.00** a'r Ysgol Sul **am 10.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER). Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Saron **am 10.00** a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg.
- Sul nesaf • Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Caiff trefniadau Peniel eu cyhoeddi dydd Sul.

Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf • Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Henllan am 10.30 a bydd cinio ysgafn i ddilyn. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00, ond gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod **yn Groes am 10.00**.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15 a hefyd yng Nghefn Berain am 11.15.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau